

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbyrdoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Manon Steffan Ros




Mae Manon Steffan Ros yn awdures doreithiog, yn gantores, yn ddramodydd, yn awdures lawn-amser, ac yn cyhoeddi colofn wythnosol yn *Golwg*. Enillodd Wobr Tir na n-Og 2019 am ei nofel i'r ardegau sef *Fi a Joe Allen*, yn ogystal â *Pluen* yn 2017, *Trwy'r Tonnau* yn 2010, *Prism* yn 2012, a *Pobol Drws Nesa* yn 2020. Mae hefyd wedi ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 a Llyfr y Flwyddyn 2019, y ddwy wobwr am *Llyfr Glas Nebo*.

*ylolfa*

[www.ylolfa.com](http://www.ylolfa.com)



**Llyfrgelloedd Cymru**  
Cael mwy o'ch llyfrgell



### Crynodeb:

Mae'r stori'n ymwneud â Sam, sydd ag obsesiwn â phêl-droed, yn enwedig ag Aaron Ramsey. Mae Sam yn dueddol o boeni am bob dim, yn ei fywyd personol ac ar y cae, ond drwy bêl-droed, mae Sam yn ymdopi'n well gyda'i orbyder. Mae'r nofel yn dangos pwysigrwydd siarad am eich teimladau a rhannu pryderon.

Cyhoeddir *Fi ac Aaron Ramsey* gan y Lolfa ym Mehefin 2021.

### Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu.

Mae'r stori am Sam, cefnogwr pêl-droed sydd wrth ei fodd efo Aaron Ramsey. Mae o'n ysu am gael mynd i gêm, yn enwedig pan mae ei dad yn dechrau chwarae i dîm lleol ac mae'r teulu i gyd yn ymgolli mewn pêl-droed. Mae 'na sôn yma hefyd am bryder - y teimlad yna o boeni am bethau, sydd, fel arfer, ar ei waethaf yn hwyr yn y nos pan dach chi'n trio cysgu.

### Beth ydych chi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ei gael o'r stori hon?

Stori dda sy'n bwysig, a chymeriadau sy'n teimlo'n real. Dwi wedi trio ysgrifennu nofel am bêl-droed y bydd pobol sydd ddim yn hoff o bêl-droed yn ei mwynhau! A hefyd, mae poeni yn gallu teimlo fel peth unig iawn, a gobeithio bydd y nofel yma'n dangos ei fod o'n beth cyffredin, er ei fod o'n deimlad hyll, a bod siarad am y peth yn llesol.

### Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch chi drwy eich bywyd?

Dwi wrth fy modd yn mynd i'r llyfrgell leol pan fydda i'n ymweld ag unrhyw le! Dwi wedi treulio llawer o amser yn pori mewn llyfrgelloedd, ac am gyfnod, roeddwn i'n mynd i'r llyfrgell efo fy nghyfrifiadur glin ac yn aros yna drwy'r dydd i sgwennu fy llyfrau a defnyddio'r cysylltiad â'r we. Mae pob llyfrgell yn llawn dop efo bydoedd a straeon a hanesion - dach chi'n gallu dysgu am unrhyw beth mewn llyfrgell!

... mwy C&A  
ar wefan

[llyfrgelloedd.cymru](http://llyfrgelloedd.cymru)